# Uned 1 UG: Ein Hamgylchedd Adeiledig

## 2.1.1: ADEILADU CYLCH BYWYD (1 o 2)

### Termau allweddol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **Cylch Bywyd** | Y camau mae adeilad neu strwythur arall yn mynd trwyddyn nhw yn ystod ei oes o ddiffiniad strategol i ddymchwel. |
| **RIBA** | Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (Royal Institute of British Architects). Corff siartredig y DU ar gyfer pensaernïaeth sy'n ymwneud â chynnal safonau proffesiynol a dylunio adeiladau o ansawdd uchel. |
| **Cynllun Gwaith RIBA** | Cynllun arweiniol sy'n trefnu'r broses o friffio, dylunio, darparu, cynnal, gweithredu a defnyddio adeilad yn wyth cam. |
| **Caffael** | Y broses o brynu nwyddau neu wasanaethau. |
| **Dylunio** | Cymhwyso sgiliau pensaernïol, peirianneg a thechnegol i greu adeilad i fodloni gofynion y cytunwyd arnyn nhw. |
| **Adeiladwaith** | Paratoi tir a defnyddio deunyddiau, peiriannau a llafur i wneud gwaith adeiladu. |
| **Gweithredu** | Rheoli amgylchedd adeiledig i ddarparu amodau addas a diogel i breswylwyr a'u gweithgareddau. |
| **Addasu at ddiben gwahanol** | Newid defnydd adeilad neu strwythur, sydd fel arfer yn golygu addasu ac adnewyddu. |
| **Dymchwel** | Y broses o dynnu adeilad neu strwythur arall i lawr a gwaredu'r deunyddiau sy'n deillio o hynny'n ddiogel. |

### 1. DYLUNIO

Mae dylunio adeiladau yn broses gydweithredol sy'n cynnwys cleient a thîm dylunio a arweinir fel arfer gan bensaer. Bydd cleient yn nodi gofynion yr adeilad. Bydd y tîm dylunio yn gweithio gyda'r cleient i ddiffinio brîff a datblygu ateb, o ran swyddogaeth, perfformiad, estheteg a chyllideb, i fodloni'r gofynion.

Mae Cynllun Gwaith RIBA yn cynnwys pedwar cam dylunio, fel y dangosir.

| Camau 0 - 4 Cynllun RIBA | |
|---|---|
| Cam 0 | Diffiniad strategol o achos busnes y cleient. |
| Cam 1 | Sefydlu amcanion, canlyniadau a chyllideb y prosiect. |
| Cam 2 | Datblygu dyluniad cysyniadol pensaernïol gan gynnwys amlinelliad o'r dyluniadau o'r strwythur a gwasanaethau. |
| Cam 3 | Dylunio datblygedig sy'n arwain at gais am ganiatâd cynllunio. |
| Cam 4 | Dyluniad technegol manwl gyda manylebau deunydd a pherfformiad a chais am gymeradwyaeth Rheoliad Adeiladu. |

**Caffael**

Mae llawer o wahanol lwybrau ar gyfer caffael dyluniad a saernïaeth adeilad. Bydd y cam dylunio'n cynnwys penderfyniadau ynghylch caffael y cam adeiladu, a allai amrywio o dendro cystadleuol, dylunio ac adeiladu cystadleuol traddodiadol, neu gontractio rheolwyr, lle caiff yr adeilad ei adeiladu gan nifer o gontractwyr gwaith gwahanol sydd wedi'u contractio i gontractwr rheoli.

### 2. ADEILADU

**Adeiladwaith** yw ymgymryd â'r gwaith adeiladu, sy'n cynnwys:

- adeiladau a strwythurau newydd
- cydosod elfennau parod ar y safle
- trosi ac adnewyddu adeiladau sy'n bodoli eisoes (*gweler addasu at ddiben gwahanol)
- gwaith peirianneg sifil, e.e., ffyrdd a phontydd
- cydosod gwasanaethau mecanyddol, trydanol, nwy a chyfathrebu.

Mae'r diwydiant adeiladu yn cynnwys cleientiaid, datblygwyr, ymgynghorwyr, gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr a chontractwyr.

Bydd cam adeiladwaith y cylch bywyd yn dechrau gyda phenodi prif gontractwr ac yn gorffen gyda'r gwaith o drosglwyddo'r adeilad gorffenedig i'r cleient.

Yn ystod y cam adeiladwaith y prif gontractwr fydd yn gyfrifol am raglennu a rheoli'r gwaith ar y safle, gan gynnwys:

- Trefnu bod y cyflenwad o ddeunyddiau yn cyrraedd y safle a chysylltu ag unrhyw gyflenwyr arbenigol a enwebwyd ar ran y cleient.
- Gwneud y gwaith adeiladu'n ddiogel, gan gynnwys cydosod unrhyw rannau parod.
- Trefnu i isgontractwyr wneud gwaith a chysylltu ag unrhyw isgontractwyr arbenigol a enwebwyd ar ran y cleient.
- Trefnu i wasanaethau gael eu gosod a'u comisiynu.

Bydd y prif gontractwr hefyd yn gyfrifol am wneud iawn am unrhyw ddiffygion sy'n codi ar ôl trosglwyddo, am 'gyfnod atebolrwydd am ddiffygion' y cytunwyd arno.

